

yna yn Saesneg, mae Wiesel yn siarad ar ran y miliynau o Iddewon a lofruddiwyd ac ar ran y goroeswyr mud. Mae hefyd yn dangos y drasiedi Iddewig fel patrwm o'r profiad dynol hollgyffredinol. Gan ddefnyddio chwedlau beiblaidd a Chasidig ei gefndir yn Hwngari, mae cydblethu pedair thema yn ei nofelau: tystio, distawrwydd, chwerthin a dialog. Ond dydy'r ddiwinyddiaeth sy'n ymddangos yn ei straeon ddim yn gorfodi strwythur systematig ar neb. Yn hytrach, mae'n llawn tyndra mawr ac mae felly wedi galluogi pobl i siarad yn fwy gonest am eu profiad o'r Holocaust a'i effaith ar ffydd.

Mewn traethawd ar gred, mae Wiesel yn cyfeirio at ei sicrwydd yn blentyn fod y byd yn ddealladwy yn nhermau ymyrraeth ragluniaethol Duw mewn materion dynol. Byddai'n adrodd 13 egwyddor Maimonides, yn cynnwys yr un olaf sy'n ategu cred fod y Meseia yn mynd i ddod 'hyd yn oed os oeda'. Ond dywed fod agendor yn ei wahanu oddi wrth y plentyn yr arferai fod. Yr ŵyl olaf a ddathlodd gartrefcyn profi Auschwitz oedd y Pasg Iddewig. Ond, gofynna, sut mae darllen stori'r Pasg Iddewig ar ôl Auschwitz? Sut mae dathlu gŵyl Pwrim lle mae Duw yn ymyrryd i atal cynllun anfad? Mae'r syniad o hanes sanctaidd yn britho Iddewiaeth, lle mae alludiaeth yn cael ei hesbonio'n glir fel cosb, lle mae Duw yn ymateb i weddïau i achub teithwyr.

Mewn oes lle mae pobl yn ymosod ar ddiwinyddiaeth draddodiadol am lawer rheswm heblaw'r Holocost, does dim rhyfedd fod rhai yn barnu ei bod yn fwy gweddus gofyn y cwestiynau na chynnig atebion. Yn sicr, does dim system foddhaol o egluro. Ond mae'r awduron y cyffyrddwyd â'u gwaith yma wedi edrych ar yr agweddau hynny o'u traddodiad y credant all eu cynnal nhw a'u cyd-Iddewon mewn oes aml-gred, sgeptigol. Mae Chaim Bermant fel pe bai'n gwarafun ffydd y rhai sy'n 'marchogaeth tuag at y wawr'. Yn y *Jewish Chronicle* ar 31 Rhagfyr 1993, sgrifennodd: 'Rhaid ei bod hi'n braf bod yn Dduw, oherwydd mae'n elwa ar sicrwydd yr Uniongred ac yn elwa ar amheuan y Rhyddfrydwyr.'

Mae'n rhaid dweud, fodd bynnag, fod y sicr a'r amheus yn dal i ymdrech i ddod o hyd i ymateb sydd, ar yr un pryd, yn onest ac yn gynhaliol.

17

Israel

Yn y bennod hon byddwch yn dysgu:

- pam mae Israel mor bwysig i Iddewon
- am yr amrywiaeth o safbwyntiau a gynrychiolir yn Israel
- am broblemau mawr sicrhau heddwch.

Canolbwynt i Iddewon

Ers sefydlu Gwladwriaeth Israel ym 1948, mae'r cwestiwn 'Beth mae bod yn Iddew yn ei olygu?' wedi mynd yn fwy dwys. Mae'r atebion o bwys ymarferol i bobl sydd am ymfudo i fyw yn Israel. Mae mwy nag un rhan o dair o'r tua 13 miliwn o Iddewon sydd yn y byd yn byw yn Israel, ond i Iddewon y Diaspora hefyd, mae Iddewdod sydd wedi ei ddiffinio mewn perthynas â gwlad – ei chyfreithiau a'i pholisiau – yn codi cwestiynau am hunaniaeth sy'n cyfuno diwinyddiaeth hynafol a gwleidyddiaeth fodern. Mae gan bob Iddew farn ar y mater. Mae rhai'n mynnu, gan fod y wladwriaeth Iddewig yn bod bellach, na ddylai Iddewon y Diaspora gynnig sylwadau ar faterion Israellaidd, er enghraifft, Jonathan Magonet, Prifathro Coleg Leo Baeck, yn *An Explorer's Guide to Judaism* (Hodder and Stoughton, 1998). Wedi'r gwbl, dydy'r Iddewon yma ddim yn 'alltud' bellach; nhw sy'n dewis byw mewn gwlad dramor. Wrth gwrs, ar un ystyr, mae gan unrhyw un hawl i gynnig barn ar faterion Israellaidd os ydyn nhw'n gyfarwydd â'r ffeithiau cymhleth. Ond dylai'r honiad ei bod hi bron yn amhosibl i unrhyw un sy'n byw yn y Gorllewin – hyd yn oed Iddew – ddeall a dehongli'r ffeithiau hynny gael ei gymryd o ddiifri.

Mae'n hanfodol cydnabod fod yr Holocost a Gwladwriaeth Israel, i lawer o Iddewon, yn anwahanadwy. Mae'r ddaau beth ynghlwm o ran amser, gan i'r wladwriaeth gael ei sefydlu brin dair blynedd wedi'r Holocost. Os oedd yr Holocost yn dweud fod Duw'n absennol, roedd sefydlu Israel yn dweud fod Duw'n bresennol. I lawer o bobl, roedd yn adfer rhywfaint o ffydd, ac mae'n dal i wneud i'r dydd heddiw. Mae'n rhaid gwybod y cefndir yma i allu cael unrhyw ymdeimlad o fuddugoliaeth Seioniaeth yn y dychmyg Iddewig. I Iddewon eraill, mae Israel yn bwysig nid am resymau diwinyddol ond am rai Iddewig, yn yr ystyr fod Gwladwriaeth Israel yn adfer Iddewiaeth i'w chyflwr gwreiddiol, sef nid bodoli fel crefydd yn unig, ond fel pobl sydd ag iaith a diwylliant. Mae'n amlwg fod yr Israel bresennol yn ddemocratiaeth, nid yn theocratiaeth. Gan hynny, mae'r cwestiwn: 'Beth ydy ystyr bod yn Iddew?' yn gwestiwn i'r *demot*, y bobl, i gyd. Gall yr ateb fod yn ddryslud o amrywiol ond mae'n siwr fod ymdeimlad o fod yn bobl yn hanfodol bwysig, a chanolbwynt yr ymdeimlad yma o fod yn bobl yw gwlad Israel.

Ni all yr un ymgais i ystyried hanfodion Iddewiaeth, sef pwrpas y gyfrol yma, anwybyddu Israel. Mae gwlad Israel yn bwysig i bawb sy'n arddel y ffydd hon. Mae hynny wedi bod yn wir ers dyddiau cynharaf yr hyn fyddai, yn y man, yn datblygu'n Iddewiaeth (gweler

pennod 1). Ond dydy'r arwyddocâd hynafol yma ddim yn gyfystyr â Seioniaeth. Mae'r gair 'Seioniaeth' yn cynnwys amrywiaeth eang o ymatebion sydd wedi cael eu disgrifio'n drylwyr mewn llyfrau hanes a gwleidyddiaeth. Ond y prif ffocws yn y fan hon, fodd bynnag, yw'r un crefyddol wrth i ni geisio amgyffred beth mae Israel yn ei olygu yn y gred Iddewig.

Datblygiad Seioniaeth

Y term 'Seioniaeth'

Mae'r term *Eretz Yisrael* ('Gwlad Israel') yn tarddu o gred grefyddol yn wreiddiol. Mae'r enw 'Israel' a roddwyd gan Dduw i'r patriarch, Jacob, yn mynegi cred yn addewid Duw i Abraham o wlad ar gyfer ei bobl (gweler pennod 2). Mae'r ffaith mai pwrpas y man daearyddol hwn oedd galluogi pobl y cyfamedd fyw yn unol â gofynion Duw yn amlwg yn yr enw *Eretz Kakedoshah* ('Y Wlad Sanctaidd'). Wedi i'r Brenin Dafydd sefydlu ei brifddinas yno, magodd Jerwsalem arwyddocâd arbennig, a dyna'r lle y byddai'r holl addoli aberthol yn digwydd. Un o'r brynau y saif y ddinas arno yw Mynydd Seion, a daeth yr enw i ddynodi'r ddinas gyfan, a'r wlad gyfan yn y man. Pan gafodd llawer o'i phobl eu caethgludo i Fabilon, roedd arnyh nhw hiraeth ingol am y ddinas a'r wlad yma (Salm 137: 1). Roedd y gobaith y byddai'r Iddewon alltud yn ailgynnull, a'r wlad yn cael ei hadfer yn cael ei fynegi'n gyson (fel yn Esea 51: 3; 52: 1-2, 7-10 lle mae'r term 'Seion' yn cael ei ddefnyddio bob tro). Felly, fe allech ddefnyddio'r term 'Seioniaeth' am y credoau a'r gobeithion yma. Ond mae wedi mynd i olygu rhywbeth tipyn mwy gwleidyddol, ac mae'r ffordd mae'n uniaethu Gwladwriaeth â Thir, Seioniaeth ag Iddewiaeth, yn achosi llawer o wrthdaro a dryswch. Mae holl bwysau'r addewid beiblaidd, ynghyd â'r gobaith torfol o gael pobl i ddychwelyd, yn cryfau cysylltiad Iddewon ag Israel, y wlad. I 'Wlad yr Addewid' y byddwch yn gwneud *aliyah*, sef 'esgyniad', y term cyffredin nawr am 'ymfudo' i Israel. Ond mae'r cysylltiad rhwng hynny â'r hyn a dddeilir fel Seioniaeth heddiw o safbwynt Israel, y Wladwriaeth, yn un pur ddwys.

Gwahanol wreiddiau Seioniaeth

Mae gwreiddiau'r mudiad yn y rhyddfrefnriad a gynigiwyd yn y cyfnod modern (gweler pennod 5). Gallai Iddew ymateb i'r 'rhodd' yma mewn amryw ffyrdd. Gallai wrthod y rhyddid newydd a pharhau i fyw bywyd amlwg grefyddol, yn gwbl ar wahân i gymdeithas an-Iddewig. Gallai fynd i'r pegwn arall, ac ymdoddi'n

llwyr i'r gymdeithas drwy gefnu ar bob arfer Iddewig ac ar y gred Iddewig ei hun. Safbwynt yr agwedd gwbl seciwlar yma yw: gan nad yw'r Meseia wedi dod, dydyn ni ddim yn credu bellach ei fod yn mynd i ddod. Ond ymateb y rhan fwyaf o Iddewon oedd derbyn rhyddfrefniad a chadw'u cred. Roedd angen ymaddasu rywfaint fel y gwelsom gyda sefydlu Uniongredded fodern, y mudiad Diwygiedig a Cheidwadaeth. Ond parhaodd Iddewiaeth i fod yn grefydd, yng ngeiriau Neusner, 'ar y model Protestannaidd'. Mae hynny'n golygu crefydd sydd, yn ei hanfod, yn un breifat; mae'n effeithio ar yr unigolyn a'r teulu, heb effeithio mewn unrhyw ffordd amlwg ar y maes cyhoeddus. Gall crediniwr gael ei drawsnwidd gan 'negeseuon preifat', ond nid yw'n trosi hynny'n swyddogaeth wleidyddol neilltuol.

Fyddai pawb, wrth gwrs, ddim yn derbyn darlun Neusner o Iddewiaeth na Phrotestaniaeth yng Ngogledd America. Yn sicr, mae rhai Iddewon a Phrotestaniaid ym Mhrydain fyddai'n dweud eu bod yn treulio llawer o amser ac egni yn mynegi eu cred drwy weithredu gwleidyddol. Ond gallwn weld fod gronyn (neu fynydd) o wirionedd yn nisgrifiad Neusner, o ystyried pedwerydd ymateb i ryddfrefniad, sef ymateb rhai Iddewon a gafodd fod gwrth-Semitaeth yn dal i fodoli yn eu gwledydd honedig 'fodern' a 'rhyddfreiniedig'. Er bod yr Iddewon yma wedi rhoi'r gorau i arferion Iddewig, roedden nhw'n dal i gael eu gwrthod, ar sail eu hil yn unig. Irai oedd wedi cael y fath brofiad, yr ateb rhesymegol oedd nid ceisio bod yn Ffrancwr neu Sais 'o'r duedd Fosenaid', ond mynd yn genedlaetholwr Iddewig brwd, hynny yw, creu gwladwriaeth lle gallai Iddewon siarad iaith Iddewig a byw eu diwylliant Iddewig. Felly, roedd gwreiddiau Seioniaeth fodern yn wleidyddol, yn seciwlar, ac yn genedlgarol. Os oes gan genedl hawl i'w gwladwriaeth ei hun, yna (fel y byddai sylfaenwyr Seioniaeth yn dadlau), dylai'r Iddewon gael gwladwriaeth – gwladwriaeth yn seiliedig nid ar ddyfodiad y Meseia ond ar genedlaetholdeb modern.

Seioniaeth wleidyddol

Y grŵp olaf yma oedd yn gyrru Seioniaeth yn ei blaen, y rhai oedd am ennill ymreolaeth yn hytrach na dibynnu ar fympwy llywodraethau eraill. Yng ngwledydd dwyrain Ewrop hefyd, roedd llawer o Iddewon yn dal i fod heb hawliau gwleidyddol. Roedd rhai eraill wedi cael blas ar ryddid, ac yna wedi ei golli eto. Yn Rwsia, arweiniodd cyfuniad o dlodi, pogromau, a chyfreithiau oedd yn gorfodi Iddewon i fyw mewn rhanbarthau arbennig at yr aliyah (ymfudiad) cyntaf i Israel, rhwng 1882 a 1903. Ymfudodd llawer iawn mwy o Iddewon Rwsiaidd i orllewin Ewrop ac UDA, ond y

lleiafrif bach hynod yma o ryw 24,000 a aeth i Balesteina oedd gwir arloeswyr Seioniaeth. Roedden nhw'n dehongli delfrydau proffwydol y Beibl mewn ffordd seciwlar iawn, ond roedden nhw hefyd wedi eu trwytho yn y diwylliant Iddewig ac oherwydd hynny, doedden nhw ddim yn hoffi Sosialaeth ddigymrodedd rhai o'r Iddewon Rwsiaidd. Yn wir, rhai o'r Sosialwyr yma oedd gwrthwynebwyr mwyaf ffyrnig Seioniaeth gynnar, ac fe ffurfion nhw y Bwnd (Ffederasiwn) Sosialaidd yng Ngwlad Pwyl i bwyso am chwyldro yn eu gwlad eu hunain. Roedd yn well gan y rhai a aeth i Balesteina gyfuno eu delfrydau sosialaidd â Seioniaeth. Y rhain, y 'Seiongarwyr' fel roedden nhw'n cael eu galw, a greodd y genedl. Drwy eu penderfyniad a'u hymdrechion nhwycafodd, er enghraifft, undebau llafur, diwydiannau mawr, sefydliadau iechyd, gwasg rydd, a'r fyddin eu sefydlu. Roedd rhai ohonyn nhw'n ffoi rhag y pogromau yn Rwsia a oedd wedi eu hargyhoeddi na ellid sicrhau diogelwch i Iddewon o fewn gwledydd eraill, a bod angen hunaniaeth ar wahân.

Roedd llawer o'r gwladychwyr cynnar yma yn Seioniaid ymarferol, yn y bôn. Y traethawd Seionaidd cyntaf a ddenodd unrhyw ymateb oedd pamffled Leon Pinsker, *Autoemancipation* (1882). Dylanwadodd ei farn ef, sef y byddai Iddewon yn parhau i fod yn lleiafrifoedd estron ym mhob gwlad os nad byddai ganddyn nhw eu gwlad eu hunain fel cenedl annibynnol, ar y Seioniaid. Gymaint oedd eu harswyd ar ôl un pogrom nes y byddden nhw wedi bod yn barod i ffoi i unrhyw wlad. Ond newidiodd Pinsker ei farn, fel Theodor Herzl yn ddiweddarach. Ar ôl meddwl yn wreiddiol nad oedd rhaid i'r wlad newydd fod wedi ei lleoli ym Mhalesteina, aeth i gredu mai dyma'r unig wlad a allai ysbrydoli'r nerth emosynol fyddai ei angen i ennill ymreolaeth i'r Iddewon. Pan ddywedodd llywodraeth Prydain ei bod yn fodlon rhoi tir yn Uganda yn famwlad i'r Iddewon, yr Iddewon mwyaf seciwlar a oedd yn gwrthwynebu Herzl, yn y chweched Gyngres Seionaidd ym 1903, gan fynnu nid yn unig fod Uganda yn anfodddhaol, ond mai dim ond Israel-Palesteina a wnâi'r tro.

Arweiniodd yr ail aliyah rhwng 1904 a 1914 a'r trydydd, o Wlad Pwyl a Romania yn ogystal â Rwsia, rhwng 1919 a 1923, at dyndra sy'n gwneud i wrthdaro modern rhwng pobl seciwlar a chrefyddol yn Israel edrych yn ddof. Aeth yn ffrae rhwng y mewnudwyr cynnar yma, a oedd yn Iddewig iawn yn hanesyddol a chymdeithasol, a'r ffermwyr crefyddol oedd eisoes yn byw ar y tir. Roedd gelyniaeth rhwng y Seioniaid seciwlar a Seioniaid crefyddol. Ceisiodd Abraham Isaac Kook (1868-1935), a oedd yn rhan o'r ail aliyah ac a ddaeth yn Brif Rabbi cyntaf Palesteina, wella'r rhwygiadau, ond hyd


yn oed heddiw yn Israel mae poster i'w gweld sy'n condemnio Kook fel heretic ac mae rhai siopau llyfrau'n gwrthod gwerthu ei lyfrau. Sgrifennodd Kook yn bwerus am agwedd gyffredinolaid Iddewiaeth, ond roedd rhai bryd hynny – a heddiw – sydd wedi colli (neu erioed wedi teimlo) y ddelfrydiaeth yma. Roedd y llif Seionaidd o ddwyrain Ewrop yn cynnwys Chaim Weizmann a David Ben Gurion, dau a fyddai'n chwarae rhan mor bwysig mewn gwreiddu'r freuddwyd.

Erbyn troad y bedwaredd ganrif ar bymtheg, dechreuodd syniadau o orllewin Ewrop ddylanwadu ar y Seioniaid. Roedd y gwledydd lle'r oedd gwrth-Semitiaeth yn dal i fodoli, er ei fod wedi ei wahardd yn swyddogol, yn cynnwys Ffrainc, lle cafodd Iddew a oedd yn swyddog ym myddin Ffrainc ei gyhuddo a'i gael yn euog ym 1895 o ysbio dros yr Almaen (achos Dreyfus). Cafodd ei waradwyddo'n gyhoeddus, a'i ddedfrydu i garchar am oes. Erbyn 1906, roedd brwydr a siglodd fywyd gwleidyddol Ffrainc wedi profi fod y Capten Dreyfus yn ddieuog a di-fai. Bu'r newyddiadurwr o Fienna, Theodor Herzl (1860-1904), yn adrodd ar yr achos llys. Mae'n tystio fod y fath wrth-Semitiaeth wedi ei syfrdanu, a chryfhau ei argyhoeddiad mai'r unig ateb oedd Gwladwriaeth Iddewig. Hawliai Herzl ei fod wedi gosod sylfeini'r wladwriaeth honno drwy sefydlu'r Mudiad Seionaidd yn Basle ym 1897. Yn ystod ei gyngres gyntaf, cyhoeddodd Herzl y gwelai'r byd wladwriaeth Iddewig o fewn hanner canrif, ac roedd yn iawn. Yn ôl diffiniad Herzl yn ei draethawd, *The Jewish State*: 'nod Seioniaeth yw creu ar gyfer y bobl Iddewig gartref ym Mhalesteina, wedi ei sicrhau gan gyfraith gyhoeddus.' Mae'r enw 'Palesteina' yn dod o'r ffordd Hebraeg o ddweud 'Philistia', sef llain arfordirol gwlad Canaan (Israel). Pur anaml y mae'r enw yma ar yr arfordir Philistaidd yn cael ei ddefnyddio yn y Beibl i olygu'r holl wlad (Exodus 15: 14). Y Rhufeiniaid a roddodd amlygrwydd i'r enw 'Palesteina', drwy ailenwi'r wlad yn 'Syria Palesteina', a dyna enw Prydain ar y rhanbarth, a fagodd rym gwleidyddol, fel y gwelwyd yn Natganiad Balfour, 1917: 'Mae Llywodraeth Ei Fawrhydi o blaid sefydlu ym Mhalesteina gartref cenedlaethol ar gyfer y bobl Iddewig.'

Seioniaeth ddiwylliannol

Un arall o sylfaenwyr Seioniaeth oedd Asher Ginzberg (1856-1927). O dan y ffugenw *Ahad Ha-am* ('Un o'r bobl'), canolbwyntiodd Ginzberg yn fwy ar ddiogelu dyfodol y diwylliant Iddewig yn hytrach na goroesiad y bobl. Ar sail ei wybodaeth ddofn, fel un a gafodd ei addysgu a'i fagu mewn teulu crefyddol iawn, dadleuai o

blaid creu gwlad a fyddai'n ganolfan i greadigrwydd diwylliannol. Roedd 'Seioniaeth ddiwylliannol' Ahad Ha-am yn llawer mwy pwylllog a graddol na rhaglen Herzl. Er iddo fynd yn agnostig crefyddol yn ddiweddarach, ei brif nod drwy gydol ei fywyd oedd sefydlu Seion fel ysbrydoliaeth ysbrydol i Iddewon wedi'r rhyddfrefniad. O'r safbwynt hwnnw, gellid dadlau ei fod yn honni'n agored y byddai Seioniaeth yn cymryd lle Iddewiaeth. Y peth pwysicaf oedd bywyd y bobl Iddewig, a dim ond dyfais i hwyluso hynny oedd crefydd hyd yn oed. Mae hyn yn gwbl groesi ddatganiad a wnaed fil o flynyddoedd yn gynharach gan Gaon Saadia: 'Dim ond er mwyn eu Torah y mae'r bobl Iddewig yn bobl'. Un darn pwysig o'r Beibl o safbwynt diffinio Seioniaeth yw Eسع 2: 1-4, yn enwedig y geiriau: 'Oherwydd o Seion y daw'r gyfraith [Torah] a gair yr ARGLWYDD o Jerwsalem.' Roedd y fodolaeth wladwriaethol roedd Herzl ac Ahad Ha-am yn ei hannog yn syniad cwbl newydd nad oedd sôn amdano mewn Iddewiaeth rabinaidd na'r grefydd a ddatblygodd o hynny. Oherwydd, heblaw am gyfnod byr rhwng 132-5 OG, doedd dim gwladwriaeth Iddewig wedi bodoli ers 2000 o flynyddoedd.




Daeth gwrthwynebiad i Seioniaeth yn y lle cyntaf nid yn unig gan y Bwrd Sosialaidd a rhai grwpiau Tra-Uniongred, ond hefyd gan fudiadau Uniongred a Diwygiedig prif-ffrwd UDA a Phrydain. Yma eto, chwaraeodd Abrahm Kook ran fawr mewn darbwyllo llawer o Iddewon Uniongred i gefnogi Seioniaeth. Roedd Iddewon Diwygiedig oedd yn mwynhau eu rhyddid newydd yng ngorllewin Ewrop neu America yn poeni i ddechrau fod pobl yn dweud mai eu gwir gartref cenedlaethol oedd Palesteina. Fel y gwelwom yn y 'Pittsburgh Platform', yn y dyfyniad ym mhennod 5, doedden nhw ddim yn disgwyl dychwelyd i Balesteina. Cafodd gwrthwynebiad Rhyddfrydol cynnar ei leisio gan un o sylfaenwyr y mudiad Rhyddfrydol Iddewig, Claude Montefiore. Ond byddai digwyddiadau yn newid barn llawer o bobl. Wedi pogrom ar ôl pogrom yn nwyrain Ewrop, daeth yr ymgais i ddiffa'r Iddewon yn llwyr, a'r Holocaust oedd y digwyddiad a argyhoeddodd Iddewon Blaengar. Oni bai am hyn, byddai Iddewon Diwygiedig, yn enwedig yn UDA, lle roedd pobl yn credu fod Seioniaeth yn gam yn ôl at syniad neilltulaidd o swyddogaeth Israel, wedi dal i wrthwynebu. Roedd yn chwyldro diwinyddol i Iddew Diwygiedig droi'n Seionydd, ond fe ddigwyddodd, a thrawsnewidodd hynny hunan-ganfyddiad Iddewon.

Ymatebion crefyddol i Seioniaeth

Gwrth-Seioniaeth

Mae ymatebion grwpiau 'crefyddol' o fewn gwladwriaeth Israel i Seioniaeth yn amrywio'n eang iawn. Ar un pen i'r sbectrwm, mae rhai sy'n gwrthod Seioniaeth yn gyfan gwbl. Mae aelodau o'r mudiad *Charedi* ('ofnus' yn yr ystyr o fod yn bobl dduwiol iawn), er enghraifft, disgynyddion getoau Ewrop, yn credu fod y wlad wedi cael ei rhoi i bobl Israel gan Dduw, a'i chymryd oddi wrthyn nhw am eu bod wedi anufuddhau i'r cyfamed. Pan fydd Iddewon yn ufuddhau i'r Torah unwaith eto, yna bydd Duw, a neb ond Duw, yn cyhoeddi dyfodiad Oes y Meseia pan fydd y wlad yn cael ei hadfer i'w bobl. Maen nhw'n llwyr wrthwynebu'r syniad fod yr Iddewon, drwy ddod i fyw yn y wlad, yn prysuro dyfodiad iachawdwriaeth. Maen nhw'n teimlo fod gwneud hyn yn golygu fod Iddewon yn ddiamynedd ynglŷn ag amseru Duw a'i allu i ailgynnull yr alltudion yn Israel.

Roedd cred y Seionwyr cynnar y byddai'r Charedim, yn y man, yn dod allan o'u geto ganoloesol a modernieiddio gyda phawb arall, yn ddi-sail. Arferai'r holl Charedim fyw mewn cymdogaethau traddodiadol fel Mea Shearim yn Jerwsalem.



Ym mis Tachwedd 1947, pleidleisiodd Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig o blaid rhannu Palesteina

Derbyniodd yr Iddewon y ffiniau arfaethedig ar gyfer Gwladwriaeth Iddewig Gwrthododd yr Arabiaid y ffiniau arfaethedig ar gyfer Gwladwriaeth Arabaidd ac ymosod ar aneddiadau Iddewig

Erbyn heddiw mae ganddyn nhw gymunedau llewyrchus ledled Israel. Oherwydd y twf yma a'u gallu i ymdrefnu, fe enillon nhw fwy o seddi yn etholiad 1996 nag erioed o'r blaen. Mae teyrngarwch gwleidyddol – ar sail argyhoeddiad crefyddol neu agweddau tuag at heddwch gyda'r Arabiaid – yn gymhleth iawn

llai na 32 sedd y blaidd fuddugol, Likud. Mae gan y pleidiau crefyddol, Seionaidd neu wrth-Seionaidd, rym mawr yn Israel oherwydd fod ganddyn nhw'r pŵer i ddymchwel y llywodraeth sydd, beth bynnag ei liw, bob amser yn gorfod brwydro i ddal clymblaid ynghyd er mwyn aros mewn grym (canlyniad system cynrychiolaeth gyfrannol Israel). Er ei bod yn cael ei chefnogi gan rai etholwyr Charedim, dydy Shas ddim yn gwadu cyfreithlondeb Israel ei hun. Yn wahanol i grwpiau Tra-Unionged eraill yn Israel, mae llawer o'i arweinwyr a'i gefnogwyr wedi gwneud gwasanaeth milwrol. Mae Shas yn gwaredu fod Israel mor anghrefyddol ac yn hynny o beth, mae'n sefyll ysgwydd wrth ysgwydd gyda'r Charedim gwrth-Seionaidd.


Grŵp hyd yn oed yn fwy gwrth-Seionaidd yw *Neturei Karta* ('Gwarchodwyr y Ddinas') sy'n dweud:

Mae'r Wladwriaeth Seionaidd yn gwadu i'r bobl Iddewig ei hanfod a'i natur unigryw, ac yn ei gweddnewid yn genedl fel pob cenedl arall, nad yw ei bodolaeth yn dibynnu ar ufuddhau neu ymwrthod â'r Torah. Cafodd y Wladwriaeth ger ein bron ei chreu fel rhywbeth i gymryd lle sancteiddrwydd a Duwioldeb Pobl Israel er mwyn gweddnewid ei hanfod unigryw, dwfn ei wreiddiau yn un tiriogaethol, an-lddewig, gwleidyddol. Mae'r Wladwriaeth Seionaidd yn cynrychioli heresi llwyr, yn dadwreiddio enaid ein ffydd o'i uraidd ac yn tramgwyddo'r cyfamod a unaeth Duw gyda ni yn Horeb.

Y cyhuddiad yw fod Seionaeth wedi troi'r syniad o wlad yr addewid yn fater o genedlaetholdeb, gyda gwlad ac iaith yn galluogi pobl i fod yn Iddewon heb Dduw.

Dehongliadau gwrthgyferbyniol o grefydd

Ar ben arall y sbectwm gwleidyddol mae'r rhai y cyfeirir atynt gan eu gwrthwynebwyr fel eithafwyr neu ffundamentalwyr. Y *Gush Emunim* ('bloc y ffyddloniaid'), er enghraifft, a dalodd am rai o'r aneddiadau (*settlements*) Israelaidd cyntaf ar y Lan Orllewinol (Jwdea a Samaria) a Llain Gasa wedi i Israel feddiannu'r tiriogaethau yn ystod Rhyfel 1967. Maen nhw'n honni eu bod wedi dod yn ôl i ardaloedd neilltuol i hyrwyddo bywyd Iddewig ac y bydd hynny'n prysuro dyfodiad y Meseia. Rywle yn y canol rhwng y Neturei Karta a'r Gush Emunim mae'r rheini sy'n cefnogi'r llywodraeth yn gyffredinol ond heb ei gweld mewn termau crefyddol. Yn eu barn nhw, doedd sefydlu



Digwyddiadau yn ystod cynnod sefydlu Gwladwriaeth Israel

yn Israel. Os ydyn nhw'n credu fod y wladwriaeth yn anghyfreithlon, yna pam mae'r Charedim yn pleidleisio o gwbl? Eu prif ddiddordeb yn y Knesset yw sicrhau arian cyhoeddus i gynnal ysgolion crefyddol a yeshivot. Maen nhw'n credu fod hyn yn gyson â'u cred, sydd hyd yn oed yn gryfach na chred y Seoniaid, mai dim ond yr Iddewon sydd â hawliau, hawliau a roddwyd iddyn nhw gan Dduw, yn eu mamwlad feiblaidd. Felly, ym 1996, drwy bleidleisio dros bleidiau Iddewiaeth Unedig y Torah a Shas, enillodd y Charedim, ynghyd â'r Blaidd Grefyddol Genedlaethol (grŵp Seionaidd) 23 sedd yn y Knesset, ychydig yn

Gwladwriaeth Israel ddim yn arwydd o iachawdwriaeth Feseianaidd. Mae'r grwpiau hyn, sy'n cynnwys y Lubavitcher, yn cefnogi aneddiadau ac yn gwrthwynebu rhoi rhannau o'r Lan Orllewinol yn ôl i'r Palestinaid. Yn wir, maen nhw'n uchel eu cloch ynglŷn â hyn, ond o safbwynt Seionaidd hynafol yn hytrach nag am resymau gwleidyddol. Heblaw am ystyriaethau diogelwch, maen nhw am ddal gafael ar y tir oherwydd eu cred grefyddol fod y tir ei hun yn sanctaidd, hynny yw, wedi ei roi i'r Iddewon gan Dduw, ac nad eu heiddo nhw mohono i'w roi i neb arall. Eu gwrthwynebiad ffyrnig i roi tir yn ôl sy'n rhoi'r fath ddylanwad gwleidyddol i'r grwpiau hyn yn Israel, yn enwedig gyda gwleidyddion asgell-dde.

Grŵp arall sydd yn y canol, ond sydd ag agweddau gwahanol iawn at y wlad a roddwyd gan Dduw, yw'r Seioniaid crefyddol prif-ffrwd. Dywedodd un o'u harweinwyr, Rabbi Maimon (1875-1962):

Rhaid sefydlu'r Wladwriaeth Hebraidd a'i rhedeg yn unol ag egwyddor y Grefydd Hebraidd, hynny yw, Torah Israel. Mae'n bargoeddiad yn glir: o'n safbwynt ni, y genedl, mae ar grefydd a'r wladwriaeth angen ei gilydd

Yn ddi-os, mae'r safbwynt yma'n agos iawn at y safbwynt beiblaidd cyffredinol (fod derbyn y tir gan Dduw yn golygu fod rhaid parhau i ufuddhau i Dduw). Yr argyhoeddiad yw fod rhywbeth dwyfol, rhywbeth trosgynnol yn y modd mae llawer o alltudion wedi cael eu 'cynnull' neu eu 'casglu i mewn', ond mae hynny'n golygu byw yn unol â mandad moesol Israel. Hynny yw, all yr Iddewon ddim ei chael hi bob ffordd. Naill ai mae'r Wladwriaeth Iddewig yn amlwg grefyddol yn y modd y mae ei phobl yn byw, neu os yw'r bobl yn dewis byw fel unrhyw bobl eraill, yna mae eu gwladwriaeth yn mynd yn debyg i unrhyw un arall, heb allu hawlio bod yn rhodd neu bwrpas Duw. Ar un ystyr, maen nhw'n credu mai busnes Duw yw ei addewidion. Gwaith yr Iddew yw byw yn unol â'i ofynion. Mae hyn yn rhybudd yn erbyn camdefnyddio'r Beibl fel siarter Israelaidd sy'n caniatáu meddiant diddiwedd ar 'Israel fwyaf' gyda'i ffiniau beiblaidd ehangaf posibl neu, yn wir, unrhyw ran o'r tir. Prin ei bod yn syndod clywed mai pobl sy'n meddwl fel hyn sydd wedi bod gyda'r mwyafr beirniadol o bolisi Israel, yn enwedig ar faterion hawliau dynol. Nid nhw yw'r unig rai, wrth gwrs. Cafodd aelod o un o bleidiau cwbl wleidyddol y Knesset ei gofnodi yn dweud:

Mae'n ddylsetsurdd ar Israel i lynu wrth y foeswers Iddewig sylfaenol: mae'r hyn oedd yn gas gennym pan

oedden ni'n lleiafrif, yr hyn sy'n niweidiol i Iddewon ar wasgar, yn gas gennym ac yn niweidiol i ni byd yn oed heddiw, er i ni ennill rhyddid ac annibyniaeth.

O'u dealltwriaeth grefyddol amrwol o beth yw bod yn Iddew, mae pobl yn dod i gasgliadau gwleidyddol gwahanol ynglŷn â sut i ymddwyn mewn Gwladwriaeth Iddewig. Mae dealltwriaeth y Seionydd crefyddol yn cael ei adlewyrchu yn y Datganiad Annibyniaeth sy'n cyfeirio at 'broffwydi Israel' yn dysgu ystyr 'rhyddid, cyfiawnder a heddwch'. Ond mae'n drawiadol iawn nad yw dogfen a luniwyd yn y wlad a roddodd undduwiaeth i'r byd yn cynnwys y gair 'Duw'. Y peth agosaf yw 'ffydd yng Nghraig Israel', term na fyddai'n eithrio anghredinwyr (yn cynnwys Ben Gurion ei hun). Ond mae'r ystumio geiriol yn amlwg gydag ymadroddion fel 'Mewngynnull yr Alltudion' ochr yn ochr â 'datblygu'r wlad er budd i'w holl breswylwyr'. Gallai Arab sy'n ddinesydd Israelaidd amau nad yw'r naill yn arwain at y llall, er mor hoff gan lawer o Israelaidd yr aneddiadau ymfrostio eu bod wedi datblygu'r tir – yn enwedig y cyflenwad dŵr – er budd i bawb, mewn ffordd na cheisiodd y boblogaeth Arabaidd wneud erioed.

Mae holl gwestiwn yr aneddiadau (yn enwedig y rhai ar gyfer mewnfudwyr) yn dal i fod yn bwnc llosg. Mae'n anodd i Balestinaid gymryd ymrwymiad llywodraeth Israel i broses heddwch o ddifri tra'n dal i ehangu. Pam, gofynnir, y cafodd ugeiniau o aneddiadau eu hadeiladu ar dir dadleuol? Mae'r naill llywodraeth Israelaidd ar ôl y llall wedi bod yn amwys eu hagwedd, weithiau dan bwysau gan UDA i atal anheddu, ac eto, rhwng 1982 a 1992, cafodd dengwaith mwy eu hadeiladu. Cwtogodd y Llywodraeth Lafur a etholwyd ym 1999, yn hallt ar y gyllideb ar gyfer aneddiadau ond newidiodd llywodraeth Likud 2001 y penderfyniad hwn. *

Hunaniaeth mewn Gwladwriaeth Iddewig

Wirth i Israel dynnu at ei hanner cant ym 1998, treuliodd cyfryngau'r byd lawer o amser yn asesu ei genedigaeth a'i hanner canmlwyddiant. Meddai Uri Avnery, cyn-aelod o'r Knesset, ac un o arweinwyr Bloc Heddwch Israel, Gush Shalom:

Pan fyddwch chi'n 50 oed, dylech fod yn gwybod pwy ydych chi. Dydy gwladwriaeth Israel ddim. Beth yw hi? Gwladwriaeth 'Iddewon'? fel y galwodd sylfaenydd Seioniaeth y wladwriaeth oedd i ddod? 'Gwladwriaeth y

bobl Iddewig' fel mae'n cael ei diffinio yn un o gyfreithiau Israel? Gwladwriaeth sy'n perthyn i'w dinasyddion? Neu 'wladwriaeth Iddewig a democrataidd' fel mae'r ddysgeidiaeth swyddogol, a gymeradwywyd gan yr Aruchel Lys, yn ei gyhoeddi? A sut all gwladwriaeth y mae un o bob pump o'i dinasyddion heb fod yn Iddewon, fod yn Iddewig ac yn democrataidd ar yr un pryd? Pwy sy'n Iddew? Beth mae 'gwladwriaeth Iddewig' yn ei olygu?

International Herald Tribune, 7 Ebrill 1998

Y Datganiad Annibyniaeth

Mae llawer wedi digwydd yn Israel ac o'i chwmpas yn y 50 mlynedd diwethaf a allai egluro pam mae hi mor anodd rhoi ateb call i'r cwestiwn 'Beth yw ystyr "gwladwriaeth Iddewig"? Gellid dadlau fod y dryswch wedi bod yno o'r cychwyn cyntaf. Wrth gyhoeddi sefydlu Gwladwriaeth Annibynnol Iddewig ym mis Mai 1948, ceisiodd Prif Weinidog cyntaf Israel, David Ben Gurion, siarad ag Iddewon o'r holl wahanol dueddiadau a nodwyd uchod:

Felly, yr ydym ni aelodau Cyngor y Bobl, cynrychiolwyr cymuned Iddewig Eretz Israel a'r Mudiad Seionaidd, ... yn rhinwedd ein hawl naturiol a hanesyddol ac ar sail penderfyniad Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig, drwy hyn yn cyhoeddi sefydlu Gwladwriaeth Iddewig yn Eretz Israel, a adwaenir fel Gwladwriaeth Israel ... bydd Gwladwriaeth Israel yn agored i fewnfydwyr Iddewig ac yn Mewngynnwll yr Alltudion; bydd yn meithrin datblygiad y wlad er budd i'w holl breswylwyr; bydd wedi ei seilio ar ryddid, cyfiawnder, a heddwch fel y rhagwelodd proffwydi Israel; bydd yn sicrhau cydraddoldeb cyflawn o ran hawliau cymdeithasol a gwleidyddol i'w holl breswylwyr, o bob crefydd, hil neu ryw; bydd yn gwarantu rhyddid crefydd, cydwybod, iaith, addysg a diwylliant; bydd yn gwarchod Mannau Sanctaidd pob crefydd; a bydd yn ffyddlon i Siarter y Cenhedloedd Unedig.

Cyfaddawd yw'r datganiad hwn yn y bôn: mae'r geiriad yn ceisio rhoi egwyddorion ar gyfer hunaniaeth Iddewig a fydd yn cwmpasu'r holl safbwyntiau tra gwahanol. Mae'n ystyried nid yn unig yr Iddewon hynny sydd eisoes yn byw yn yr ardal, ond hefyd Iddewon a allai ddod yno, a hefyd Iddewon ar wasgar ym mhedwar ban y byd. Felly, mae Israel yn cael ei disgrifio fel Gwladwriaeth Iddewig, hynny yw, gwladwriaeth sy'n perthyn i'r bobl Iddewig ble bynnag y bônt. Roedd ar Ben Gurion angen un

hanes a allai uno'r Iddewon. Daeth o hyd i'r hanes hwnnw yn narlun y Beibl o bobl y rhoddwyd tir iddyn nhw, a gafodd eu halltudio, ac a ddychwelodd. Wrth iddo greu'r Wladwriaeth, manteisiodd ar ddyhead yr Iddew am Seion a oedd yn deillio o gred grefyddol ac eto, roedd yn rhaid iddo ddweud hynny mewn ffordd fyddai'n bodloni'r nifer fawr o Iddewon nad oedd bellach yn credu yng ngwaredigaeth Oes y Meseia. Yr un syniad oedd yn un pawb oedd eu bod yn bobl. Doedd pwrpas neu genhadaeth i'r byd ddim yn codi. Roedden nhw'n un bobl oedd wedi dod o un lle, wedi teithio gyda'i gilydd, ac roedden nhw'n mynd yn ôl i'r un lle hwnnw. Drwy alw'r Wladwriaeth Iddewig yn 'Wladwriaeth Israel', roedd yn datgan yn glir fod holl hanes yr Iddewon wedi bod yn arwain at hyn. Ond roedd rhai yn dal i ofyn: beth yw ystyr bod yn 'deyrnas o offeiriad ac yn genedl sanctaidd'? (gweler pennod 2). Roedd llawer o Iddewon yn fodlon defnyddio diwinyddiaeth fel cefndir i'w hawl i fod yn genedl. Ond roedden nhw'n dal i ofyn: beth yw ystyr bod yn Iddew? Roedd yr ateb i'r holl grwpiau gwahanol, prun ai eu bod wedi eu seilio ar ddelfrydau crefyddol neu ar fod yn aelod o'r gymuned Iddewig, wedi ei wreiddio yng ngwlad Israel fel cartref.

Anawsterau diffinio 'Iddewdod'

Mae'r gwrthdaro ar fater hunaniaeth yn parhau gyda brwydr ynglŷn â'r gair Iddew bob blwyddyn yn y Knesset, a chafwyd nifer o achosion enwog o bobl yn herio'r diffiniad. Cafodd Iddewdod ei ddiffinio'n wreiddiol ym 1950 a 1954 mewn ffyrdd a oedd yn adlewyrchu diffiniad Hitler (a mathau eraill o'erlid gwrth-semitig) hynny yw, unrhyw un a oedd ag unrhyw waed Iddewig. Arweiniodd achos y Capten Shalit yn y pen draw at welliant i Ddeddf y Dychwelyd ym 1970. Yn ôl honno, mae 'Iddew' yn golygu unrhyw un a aned i fam o Iddewes neu sydd wedi cael tröedigaeth i'r grefydd ac sydd heb fod yn aelod o grefydd arall. Yn y ddaol hon, sy'n parhau, mae Iddewon crefyddol am ychwanegu'r geiriau 'yn ôl yr halachah' ar ôl y gair 'tröedigaeth'. Mae'r ddau Brif Rabbi, o'r cymunedau Seffardi ac Ashkenazi, am i Iddewdod gael ei ddiffinio fel bod ag un rhiant o Iddew. Maen nhw'n teimlo fod llawer o Iddewon o'r cyn-Undeb Sofietaidd wedi manteisio'n annheg ar y cyfle i fewnfudo drwy fod â pherthynas pell sy'n Iddew. Dydy'r gyfraith ddim yn caniatáu hawliau *oleh* ('mewnfydwyr', lluosog *olim*) i 'berson a fu'n Iddew ac sydd wedi newid ei grefydd yn wirfoddol'.

Yr achos enwocaf o ddiagon, a'r un sy'n taflu mwyaf o oleuni ar Ddeddf y Dychwelyd, yn enwedig o ran hunaniaeth a chrefydd,

yw achos 'y Brawd Daniel'. Ar ôl cael ei eni'n Oswald Rufeisen, i rieni Iddewig yng Ngwlad Pwyl ym 1922 a'i fagu'n Iddew, trodd yn Gristion ym 1941, ac ymuno ag Urdd y Carmelaid ym 1945. Roedd am ymuno â changen y Carmelaid yn Israel, a mynnodd fod ganddo hawl i ymfudo, fel Iddew. Ar ôl rhai blynyddoedd, daeth yr achos ger bron llys o'r diwedd ym 1962. Mae dadleuon y gwahanol farnwyr yn ddeunydd darllen cyfareddol (fe'u ceir yn *Selected Judgments of the Supreme Court of Israel*, gol. A.F. Landau, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Jerusalem, 1971), ond dyma ddau ddyfyniad gan ddau farnwr felenghreiffitiau. (Gallwch ddod o hyd i rai eraill yn *Textual Sources for the Study of Judaism*, gol. Philip S. Alexander, Gwasg Prifysgol Chicago, 1990). Dadleuai'r Barnwr Cohn:

Ni fu erioed ddigwyddiad mor chwyldroadol yn hanes y bobl Iddewig, a wasgarwyd ac sydd ar wasgar ymhlith y cenedloedd, â sefydlu Gwladwriaeth Israel. Yn y Diaspora roeddem yn lleiafrif, yn cael ein goddef neu'n berlid, ond yn ein Gwladwriaeth ein hunain yr ydym yn genedl annibynnol fel pob cenedl arall... Nid chwyldro gwleidyddol yn unig mo hun; mae'n ei gwneud hi'n hanfodol adolygu'r gwerthoedd a ddysgasom yn ein halltudiaeth ffaith... Dyma ddyn yn dod yn awr i Wladwriaeth Israel sydd yn ystyried Israel yn famwlad iddo ac sydd am gael cyflawnhad o fewn ei ffiniau, ond Cristnogaeth yw ei grefydd. A ydym felly am gau'r pyrh? ... A ddylai Gwladwriaeth Israel, sydd 'wedi ei seilio ar ryddid, cyfiawnder a heddwch fel y rhagwelodd proffwydi Israel', weithredu tuag at ei phreswylwyr a'r rhai sy'n dychwelyd fel y gwmaeth rhai o lywodraethwyr anfad teyrnasoesdd Catholig yn y gorffennol?

Dadleuai'r Barnwr Landau:


Yn gyntaf, mae'n sicr nad oedd awdur y sylw: 'Er iddo bechu, y mae'n dal i fod yn Iddew' sy'n ymddangos yn Sanhedrin 44a, erioed wedi golygu i bwnny gyfeirio at Iddew oedd wedi newid ei ffydd. Mae'n amheus a oedd ysgolheigion Talmudaidd, wrth son am wrthgilyur, yn golygu cynnwys achos eithafol Iddew sydd nid yn unig wedi cyflawni eilunaddoliad ond sydd wedi gwadu ei ffydd a throi at grefydd arall befyd. Yn ail, mae'n debyg fod debongliad doeth Rashi ac awdurdodau eraill yn y Canol Oesoedd o'r sylw hwn i'w briodoli i awydd i ymdrin yn drugarog â thröedigion dan orfodaeth, a

pheidio â chau'r drws pe baent am edifarhau a dychwelyd... Mae'r deisebydd wedi ei eithrio ei hun rhag tynged cyffredin y bobl Iddewig ac wedi rhwymo ei dnyged wrth rymoedd eraill y parcha eu credodau yn ddeallusol ac yn ymarferol. Dyna'r wir sefyllfa, a dyna yw teimlad y mwyafrif helaeth o Iddewon heddiw o byd, o fewn a thu allan i'r Wladwriaeth, teimlad sy'n deillio o ymdeimlad cenedlaethol positif ac nid o unrhyw awydd i dalu'r pwyth yn ôl i'r Eglwys Gatholig am ei thriniaeth o Iddewon yn y dyddiau gynt...

O ran cyfanswm y pethau sy'n ei gymhwyso i fod yn Iddew mae achos y Brawd Daniel yn gryf iawn. Y mae, felly, yn Iddew ac eto, mae ei achos yn cael ei wrthod ar y sail nad yw'n Iddew yn ystyr boblogaidd y gair. Byddai rhai'n dadlau nad hunaniaeth unigolyn ond hunaniaeth y Wladwriaeth Iddewig yw testun dadl yr achos yma. Y dyfarniad yw nad mater i'r halachah yn llwyr yw pwy sydd i gael ei dderbyn ond eto, rhaid i bob Iddew dderbyn gwerthoedd halachaid fel norm sy'n rhan o wead y gymdeithas. Mae'r safbwynt gwrthrychol y gellid ei ddisgwyl gan farnwr yn diflannu wrth iddo fynd ati i addysgu pobl am werthoedd y gwareiddiad Iddewig. Mae'r naill farnwr ar ôl y llall, mewn gwirionedd, yn cyflwyno dadleuon y bydd yn eu gwrthod wedyn er mwyn cyflwyno darn arall o ddyseidiaeth. Mae hunaniaeth yr holl Wladwriaeth Iddewig a'i chyfundrefn gyfreithiol yn cael ei ddiffinio yma. Mae achos y Brawd Daniel yn targelu'r gwrthdaro sylfaenol rhwng gwerthoedd sy'n bodoli o fewn y Wladwriaeth ei hun. Mae'r ddwy ochr yn y ddadl yn defnyddio ffynonellau crefyddol traddodiadol a llenyddiaeth Seionaidd fodern, ac eto, mae'r dyfarniad terfynol yn dibynnu ar drydedd ffynonell, sef y syniad poblogaidd o beth yw Iddew. Mae un barnwr (Berison) yn treulio tri-chwarter o'i ddyfarniad yn dangos, ar sail yr halachah, fod y Brawd Daniel yn Iddew, a'r chwarter arall yn dweud nad all ddibynnu ar hyn, ac y bydd yn rhaid iddo ddyfarnu yn ei erbyn. Yn yr un modd, mae'r Barnwr Silberg yn gwrthod achos y deisebydd yn y pen draw oherwydd: 'un peth sydd yn gyffredin i bob Iddew sy'n byw yn Israel (ac eithrio dyrnaid bach) sef nad ydym yn ymwahanu oddi wrth ein gorffennol hanesyddol nac yn gwadu treftadaeth ein cyndeidiau... Y cwbl yw'n diwylliant newydd yn y wlad hon, ar ei lefel uchaf, yw fersiwn newydd o ddiwylliant y gorffennol.'


Mae'r gwrthdaro rhwng cyfraith Israelaidd a chyfraith Iddewig sy'n amlwg yma yn deillio o'r ffordd mae'r Wladwriaeth wedi cynnal y *status quo*, o oes y Twrciaid Ottoman, sef fod statws

'Mewngynnull' yr altitudieon



Tarddiad

% o boblogaeth Iddewig Israel, blynyddoedd cyfrifiad



© The Economist, Llundain (1998) Flynthornell: Central Bureau of Statistics * yn cynnwys Druze, Cristnogion a Mwslimaidd

personol yn fater i'r gyfraith grefyddol tra bod dinasyddiaeth yn wahanol. Cyfraith seciwlar yw Deddf y Dychwelyd sydd y tu allan i awdurdod y llysoedd rabbinaidd, ac mae ei diffiniad o Iddewdod yn wahanol i'r un a ddefnyddir yn y llysoedd yma wrth iddyn nhw

ddefnyddio ar faterion fel priodas ac ysgariad. Mae rhai'n dadlau nad yw cyfraith grefyddol Iddewig yn chwarae digon o ran yn Israel, a hoffent weld holl gyfraith sifil a throeddol yr halachah yn cael ei gweithredu.

Mae'r mater o statws a'r 'rhyddid crefydd' sy'n cael ei warantu yn codi'r anhawster arall mwyaf difrifol yn y datganiad ac mewn datganiadau wedi hynny ar beth yw ystyr perthyn i'r Wladwriaeth Iddewig. Nid Iddewon mo 1.2 miliwn o'r 6.5 miliwn o ddinasyddion Israel, ond Arabiaid Mwslimaidd yn bennaf. (Dydy'r holl Fwslimiaid ddim yn Fwslimaidd crefyddol, ddim mwy nag y mae pob Iddew yn Iddew crefyddol.) Mae Mwslimiaid, Cristnogion, Druze a Bahai yn gydradd ger bron y gyfraith, rhyddid cred nad yw gwledydd eraill y Dwyrain Canol bob amser yn ei gefnogi. Mae saith calendr gwahanol o wyliau crefyddol (yn cynnwys y rhai Cristnogol Dwyreiniol a Gorllewinol a Samaraidd) yn cael eu cydnabod. Er bod gwrthdaro dros y 'Mannau Sanctaidd', nid Mwslimiaid a Christnogion, sydd â'u llysoedd crefyddol annibynnol eu hunain yn Israel, sy'n cael problem gyda 'rhyddid crefydd', ond Iddewon an-Unionged. Mae rhwystrau yn ffordd Iddewon sy'n methu bodloni gofynion Unionged o ran priodi ac ysgaru (gweler pennod 9). Mae priodas sifil, i bob diben, wedi ei gwahardd, sefyllfa sy'n dân ar groen Iddewon sy'n gwrthod syniadau Unionged.

Heddwch gyda chyfiawnder a diogelwch

Blynyddoedd cythryblus yn y Dwyrain Canol

- 1956** Lluoedd Israel yn meddiannu Penrhyn Sinai. Ymgyrch Sinai. Prydain a Ffrainc yn ymosod yn yr Aifft. Cadoediad y CU. Lluoedd Israel yn tynnu'n ôl i'r llinell gadoediad.
- 1967** Gwarchae gan yr Aifft ar Gwlff Eliat. Y Rhyfel Chwe Diwrnod. Israel yn trechu'r Aifft, Gwlad Iorddonen, a Syria a meddiannu Uchelidir Golan a Glan Orllewinol afon Iorddonen. Ailuno Jerwsalem.
- 1969-70** Gwrthdaro dros Gamlas Suez
- 1973** Yr Aifft yn ymosod yn ddirybudd ar Ddydd y Cymod. Rhyfel Yom Kippur.
- 1979** Arwyddo cytundeb heddwch rhwng Israel a'r Aifft, yn sgil Cytundeb Camp David ym 1978.

ddefnyddio ar faterion fel priodas ac ysgariad. Mae rhai'n dadlau nad yw cyfraith grefyddol Iddewig yn chwarae digon o ran yn Israel, a hoffent weld holl gyfraith sifil a throeddol yr halachah yn cael ei gweithredu.

Mae'r mater o statws a'r 'rhyddid crefydd' sy'n cael ei warantu yn codi'r anhawster arall mwyaf difrifol yn y datganiad ac mewn datganiadau wedi hynny ar beth yw ystyr perthyn i'r Wladwriaeth Iddewig. Nid Iddewon mo 1.2 miliwn o'r 6.5 miliwn o ddinasyddion Israel, ond Arabiaid Mwslimaidd yn bennaf. (Dydy'r holl Fwslimiaid ddim yn Fwslimaidd crefyddol, ddim mwy nag y mae pob Iddew yn Iddew crefyddol.) Mae Mwslimiaid, Cristnogion, Druze a Bahai yn gydradd ger bron y gyfraith, rhyddid cred nad yw gwledydd eraill y Dwyrain Canol bob amser yn ei gefnogi. Mae saith calendr gwahanol o wyliau crefyddol (yn cynnwys y rhai Cristnogol Dwyreiniol a Gorllewinol a Samaraidd) yn cael eu cydnabod. Er bod gwrthdaro dros y 'Mannau Sanctaidd', nid Mwslimiaid a Christnogion, sydd â'u llysoedd crefyddol annibynnol eu hunain yn Israel, sy'n cael problem gyda 'rhyddid crefydd', ond Iddewon an-Unionged. Mae rhwystrau yn ffordd Iddewon sy'n methu bodloni gofynion Unionged o ran priodi ac ysgaru (gweler pennod 9). Mae priodas sifil, i bob diben, wedi ei gwahardd, sefyllfa sy'n dân ar groen Iddewon sy'n gwrthod syniadau Unionged.

Heddwch gyda chyfiawnder a diogelwch

Blynyddoedd cythryblus yn y Dwyrain Canol

- 1956** Lluoedd Israel yn meddiannu Penrhyn Sinai. Ymgyrch Sinai. Prydain a Ffrainc yn ymosod yn yr Aifft. Cadoediad y CU. Lluoedd Israel yn tynnu'n ôl i'r llinell gadoediad.
- 1967** Gwarchae gan yr Aifft ar Gwlff Eliat. Y Rhyfel Chwe Diwrnod. Israel yn trechu'r Aifft, Gwlad Iorddonen, a Syria a meddiannu Uchelidir Golan a Glan Orllewinol afon Iorddonen. Ailuno Jerwsalem.
- 1969-70** Gwrthdaro dros Gamlas Suez
- 1973** Yr Aifft yn ymosod yn ddirybudd ar Ddydd y Cymod. Rhyfel Yom Kippur.
- 1979** Arwyddo cytundeb heddwch rhwng Israel a'r Aifft, yn sgil Cytundeb Camp David ym 1978.

- 1982** Israel yn ceisio dileu'r PLO drwy oresgyn Libanus. *Rhyfel Libanus.*
- 1987** Gwrthryfel y Palestinaid yn cychwyn. *Intifada.*
- 1990-1** Israel yn cael ei bomio gan Irac yn ystod *Rhyfel y Gwlff*
- 1991** Dechrau trafodaethau heddwch Madrid. *Fframwaith Madrid.*
- 1993** *Cytundeb Heddwch Oslo.* Y PLO ac Israel yn arwyddo *Datganiad o Egwyddorion ac Ymreolaeth Interim.* Y Fatican yn cydnabod Israel, *Cytundeb Sylfaenol rhwng yr Eglwys Babyddol a Gwladwriaeth Israel.*
- 1994** Ymreolaeth gyfyngedig i'r Palestinaid wrth i Israel dynnu'n ôl o Jericho a Llain Gaza. Cyfarfod cyntaf Awdurdod Cenedlaethol Palesteina (PNA). Israel a Gwlad Iorddonen yn arwyddo cytundeb heddwch.
- 1995** Uwch-gynhadledd Cairo gydag arweinwyr y PLO, Gwlad Iorddonen, Israel, yr Aifft, a Syria i arwyddo cytundeb heddwch (anhawster Ucheldir Golan a gipiwyd gan Israel ym 1967). *Cytundeb Oslo II.* Llofruddio Prif Weinidog Israel, Yitzhak Rabin.
- 1996** Etholiad Cyngor Cenedlaethol Palesteina. Y PNA yn rheoli rhai trefi a dinasoedd ar y Lan Orllewinol a Llain Gaza. Llywodraeth asgell-dde, Likud, yn cael ei hethol. *Memorandwm Wye River* yn allygchwyn y broses heddwch – rhannau eraill o'r Lan Orllewinol, yn cynnwys pentrefi, dan reolaeth y PNA. PLO yn dileu cymal yn ei gyfansoddiad yn galw am ddiwrio Israel.
- 1998** Llywodraeth gymedrol, Lafur yn cael ei hethol o dan y Prif Weinidog Ehud Barak.
- 1999** Ymweliad y Pab ag Israel-Palesteina. Israel yn tynnu nôi o Libanus. Marw Arlywydd Syria, Hafiz al-Asad, a olynwyd gan ei fab, Bashar, yn gadael y gwrthdaro dros feddiant Ucheldir Golan heb ei ddatrys. Trafodaethau rhwng Palesteina ac Israel yn Camp David yn methu ar fater statws Jerwsalem. Yr ail Intifada'n dechrau.
- 2001** Barak yn colli'r etholiad a Likud yn cael ei ethol o dan y Prif Weinidog Ariel Sharon.
- 2002** Pla o fomio gan hunan-laddwyr, a dial am hynny. Galw etholiadau yn gynnar yn 2003
- 2003** Ailethol Ariel Sharon a phlaid Likud.
- 2004** Marwolaeth Yasser Arafat.

Gwrthdaro

Mae mwy na phedwar degawd o wrthdaro rhwng Israel a'r gwledydd Arabaidd o'i chwmpas wedi creu ansicrwydd, drwgdybiaeth a gelyniaeth ar y ddwy ochr. I berson o'r tu allan, galloch feddl y gallai cyd-ddioddefaint arwain at gyd-ddaelltariaeth. Ond mae hanes, cof, a'r posibilrwydd brawychus o ddulliau rhyfel modern yn ategu profiad personol. Gydag anghydfod yn ymwneud â thir sydd â hanes morfaith ac mor gymhleth â hwn, dydy hi ddim yn hawdd darganfod y ffeithiau, heb son am eu deall. Mae'r ddwy ochr yn anghytuno ynglŷn â phethau fel pwy oedd yn byw ble yn wreiddiol, pwy gipiodd dir oddi wrth bwy, ac yn y blaen, mewn rhyfel propaganda rhwng y Palestinaid a'r Israeliaid. Un pwynt pwysig yw'r ffaith i negydwy'r y PLO ac Israel yn nhrafodaethau Oslo ym 1992-3 gytuno mai'r unig ffordd y gellid symud ymlaen tuag at ddyfodol heddwchlon oedd drwy gytuno i beidio â dadlau am y gorffennol. Gallai pobl sy'n sinigaidd ynglŷn â'r holl broses heddwch ddadlau mai'r rheswm am hynny oedd na allai'r naill ochr neu'r llall fforddio i'r gwir gael ei ddatgelu. Ond rheswm gwahanol oedd gan y bobl oedd yn negydu. Roedden nhw'n gwybod yn iawn fod eu pobl wedi dioddef anghyfiawnder mawr ac yn teimlo'n chwewr iawn, a hynny oedd y sbardun i'r penderfyniad. Pwy bynnag oedd ar fai, Israel neu'r gwledydd Arabaidd, yr angen yn awr oedd sicrhau cyfiawnder a heddwch.

Heddwch i bawb a chyfiawnder i pawb yw'r nod o hyd. Thema amlwg yn negeseuon y wasg fyd-eang yn llongyfarch Israel ar ei hanner canmlwyddiant ym 1998 oedd na ddylai'r Iddewon wadu i'r Palestinaid yr union drysor roedden nhw eu hunain yn ei ddathlu, sef y rhyddid i fod yn genedl. Gan gofio mai'r Arabaidd oedd yn bennaf gyfrifol am y 'Drychineb' fel maen nhw'n cyfeirio at ryfel 1948, am iddyn nhw wrthod penderfyniad y Cenhedloedd Unedig ym 1947 yn rhannu Palesteina yn Wladwriaeth Iddewig a Gwladwriaeth Arabaidd, dywedodd y *Daily Telegraph* (29 Ebrill 1998):

Yn y rhyfel a ddihymodd hynny, collasant hyd yn oed fwy o dir nag yr oedd y CU wedi ei ddyfarnu i'r Iddewon. Heb fawr ymdeimlad o eironi, mae'r Arabaidd yn awr yn galw ar i Israel ufuddhau i benderfyniadau'r CU sy'n galw arni i dynnu yn ôl o'r tiriogaethau a feddiannodd ym 1967.

Ond dylai Israel ofalu peidio â llithro i'r un hubris ag a effeithiodd ar yr Arabaidd. Mae degawdau o wrthdaro â Seioniaeth wedi ffurfio cenedl Balestinaidd sydd yn awr yn galw am beth sydd gan yr Iddewon – terfyn ar